

Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cronfa Sefydlogi

Arian i gefnogi gyrff celfyddydol yn ystod Coronafeirws

Gwnewch gais os gwelwch yn dda erbyn 8 Mai 2020



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o "COVID-19: Cefnogaeth i Gyrff:Cronfa Sefydlogi".

21 Ebrill 2020

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:



E-bost: grantiau@celf.cymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma..... | 2 |
| Am y Gronfa Sefydlogi..... | 4 |
| Pwy sydd yn gallu gwneud cais?..... | 5 |
| Portffolio Celfyddydol Cymru..... | 7 |
| Dyddiadau pwysig..... | 9 |
| Am faint o arian rydych chi'n gallu gwneud cais?..... | 9 |
| Ar gyfer beth mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio?..... | 10 |
| Sut fyddwn ni'n gwneud ein penderfyniad..... | 11 |
| Ein prif nodau ar gyfer yr arian yma..... | 12 |
| Sut rydych chi'n gwneud cais?..... | 13 |
| Pa wybodaeth rydyn ni ei angen gennych chi..... | 15 |
| Am eich corff..... | 15 |
| Am eich arian..... | 16 |
| Am eich prosiect..... | 17 |
| Manylion banc..... | 18 |
| Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth..... | 19 |
| Cwynion..... | 20 |

Am y Gronfa Sefydlogi



Arian ydy'r **Gronfa Sefydlogi** y mae cyrff celfyddydol yng Nghymru yn gallu ei gael i'w cefnogi nhw drwy'r coronafeirws. Enw arall ar Coronafeirws ydy **COVID-19**.




Mae'r arian yma ar gyfer helpu cyrff celfyddydol sydd wedi cael eu heffeithio gan coronafeirws. Fe fydd yn eu helpu nhw i ddod yn ôl i normal a'u cadw nhw i fynd am y misoedd nesaf.



Mae llawer o gyrff wedi cael eu heffeithio gan Coronafeirws. Mae'n bwysig bod yr arian yma yn cael ei roi i gyrff sydd fwyaf mewn angen.



Meddyliwch yn ofalus os gwelwch yn dda os oes angen i chi wneud cais am yr arian yma.



Mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith sydd yn digwydd dros y 6 mis nesaf, i helpu cyrff i ddod dros yr amser anodd yma.

Pwy sydd yn gallu gwneud cais?



Fe fydd rhai cyrff yn ein **Portffolio Celfyddydol Cymru** yn gallu gwneud cais. Grŵp o gyrff ydy Portffolio Celfyddydol Cymru rydyn ni yn eu cefnogi ac yn rhoi arian iddyn nhw bob blwyddyn i'w helpu nhw i redeg.



Mae cyrff sydd ddim yn rhan o'n **Portffolio Celfyddydol Cymru** yn gallu gwneud cais hefyd.



Dydy e ddim ar gyfer **cyrff di-elw yn unig**. Mae hyn yn meddwl cyrff sydd yn gweithio er lles pobl. Mae unrhyw arian maen nhw'n ei wneud yn mynd yn ôl i'r corff ac yn wneud gwaith da.



Rydych chi'n gallu gwneud cais os ydy eich corff wedi ei leoli yng Nghymru ac yn 1 o'r mathau yma o gyrff:

- **Cwmni cyfyngedig gan Warant**
- **Elusen cofrestredig (yn cynnwys ymddiriedolaethau elusennol)**
- **Corff Ymgorfforedig Elusennol (CIO)**
- **Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC)**
- **Cwmni Cyfyngedig gan Gyfranddaliadau (gweler cyfyngiadau isod)**
- **Cymdeithas Anghorfforedig**
- **Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig.**



Darllenwch “**Cronfa Sefydlogi – Cwestiynau Cyffredin**” os ydych angen rhagor o wybodaeth am hyn os gwelwch yn dda.

Er mwyn gallu gwneud cais rhaid i'ch corff hefyd:



- Gwneud o leiaf hanner ei waith mewn math o gelfyddyd rydyn ni'n ei gefnogi. Er enghraifft, dawns, cerddoriaeth, theatr.



- Wedi gwneud gwaith yn y 3 blynedd diwethaf oedd wedi cael ei ariannu yn gyhoeddus. Mae hyn yn meddwl wedi cael ei dalu gydag arian gan y cyhoedd.



- Yn gwneud y rhan fwyaf o'i waith yng Nghymru.



- Rhywun sydd o leiaf 18 oed yn rheoli'r corff.



- Cael cyfeiriad yng Nghymru. A chyfrif banc DU yn enw'r corff gyda o leiaf 2 berson wedi cael eu henwi fel llofnodwyr. Mae hyn yn meddwl bod o leiaf 2 berson wedi cytuno i arian gael ei ddefnyddio o'r cyfrif.

Portffolio Celfyddol Cymru



Dydy'r arian yma ddim yn agored i bob aelod o'n **Portffolio Celfyddol Cymru**. Dydyn ni ddim eisiau i chi wneud cais os ydych chi'n aelod o'n **Portffolio Celfyddol Cymru ac**:



- Rydych chi'n cael mwy na 55% o'r holl arian sydd yn dod i mewn i'ch corff gennym ni. Mae hyn ychydig dros haner eich arian.



Gweithiwch allan y cyfartaledd dros y 3 blynedd ariannol diwethaf os gwelwch yn dda: 2016 - 2017, 2017 - 2018 a 2018 - 2019.



- Mae gennych chi ddigon o arian i barhau i weithio am y 6 mis nesaf.



- Rydych chi'n rhan o gorff mwy, fel y cyngor lleol, prifysgol neu'r BBC.



Os nad ydych chi yn gallu gwneud cais am yr arian yma ond yn meddwl y bydd rhaid i'ch corff gau os nad ydych chi'n ei gael, siaradwch gyda ni os gwelwch yn dda.



Mae angen inni gefnogi cyrff o'n **Portffolio Cyngor Celfyddydol** sydd yn cael llai na hanner o'u holl arian gennym ni i ddechrau.



Os nad ydych chi'n siŵr os ydych chi'n gallu gwneud cais, darllenwch "**Cronfa Sefydlogi - Cwestiynau Cyffredin**".



Os ydych chi eisiau gweld os ydych chi'n gallu cael arian o'r gronfa yma, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill cysylltwch gyda ni ar:

E-bost: grants@wales.cymru

Gwefan: <https://arts.wales/about-us/contact-us>

Twitter: [@Arts_Wales](https://twitter.com/Arts_Wales)



Fe fyddwn ni'n ateb mor gyflym ag rydyn ni'n gallu. Os ydych chi eisiau inni eich ffonio yn ôl, rhowch eich rhif inni os gwelwch yn dda. Fe fyddwn ni yn eich ffonio chi mor fuan ag rydyn ni'n gallu.

Dyddiadau pwysig



Mae'r Gronfa Sefydlogi yn agor ar Ddydd Mawrth **21 Ebrill 2020**.



Rhaid i chi anfon eich cais inni erbyn **5pm ar ddydd Gwener 8 Mai 2020**.

Am faint rydych chi'n gallu gwneud cais?



Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyd at £35,000. Rhaid defnyddio'r arlan yma o fewn 6 mis.



Os ydych chi mewn angen mawr efallai y byddwch yn gallu wneud cais am fwy na hyn. Ond rhaid i chi ofyn inni gyntaf er mwyn gallu gwneud cais am ragor o arian.

Am beth mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio?

Mae'r arian yma yn gallu cael ei ddefnyddio i:



- **Gwaith sydd yn helpu eich corff i ddal i fynd a pheidio â chau. Er enghraifft:**

- Costau fel rhent a chostau staff.
- Arian ar gyfer offer fel bod staff yn gallu gweithio gartref.
- Taliadau mae angen i chi eu gwneud.



- **Cynllunio a gwneud gwaith yn y 6 mis nesaf, yn cynnwys:**

- Cael prosiectau yn barod ar gyfer pan mae pethau yn dod yn ôl i normal.
- Prosiectau i'r cyhoedd allu eu mwynhau nawr, fel fideo a phethau dros y rhyngrwyd.

Sut fyddwn ni'n gwneud ein penderfyniad

Fe fyddwn ni'n meddwl am y pethau yma i'n helpu ni i wneud penderfyniadau:



- Pa mor ddifrifol ydy eich problemau arian. Mae angen i chi ddweud wrthyn ni am hyn yn eich cais.



- Pa mor bwysig ydy eich gwaith. Mae hyn yn gallu bod oherwydd ei fod yn gelf mawr. Neu mae'n cefnogi pobl i fod yn greadigol.




- Pa mor dda mae eich gwaith yn ein helpu i ateb ein prif nodau.



- Sut mae eich gwaith o fudd i eraill, nawr ac yn y dyfodol.



- Pa gyrff eraill rydyn ni yn eu cefnogi. Lle maen nhw a pha fath o waith maen nhw'n ei wneud. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n cefnogi gwahanol ffurfiau o gelfyddyd ar draws Cymru.



Rydyn ni'n anelu at wneud ein penderfyniadau a chael arian i'r cyrff sydd wedi cael eu dewis o fewn 4 wythnos i'r dyddiadau cau.



Os ydyn ni'n cael llawer o geisiadau efallai bydd hyn yn cymryd mwy o amser. Fe fyddwn ni'n dweud wrthyich chi os ydy hyn yn digwydd.

Ein prif nodau ar gyfer yr arian yma

Rydyn ni eisiau defnyddio'r arian yma i helpu 2 beth pwysig:



1. Cefnogi cyrff i ddal ati i wneud gwaith da, A wneud yn siŵr bod nhw'n gallu dal i fynd ar ôl coronafeirws.



2. Cael mwy o bobl o wahanol gefndiroedd, gwahanol leoedd a gwahanol alluoedd i gymryd rhan yn y cefyddydau. Yn enwedig pobl sydd yn fyddar ac yn anabl. Rydyn ni eisiau i chi ddangos eich bod chi wedi meddwl am y pethau yma yn eich cais.



Mae angen i chi hefyd esbonio sut y byddwch chi'n cefnogi pobl i gymryd rhan yn y cefyddydau yn Gymraeg.

Sut rydych chi'n gwneud cais?



1. Llanwch y ffurflen gais syml ar-lein yma os gwelwch yn dda: https://www.GrantRequest.com/SID_1368?SA=SNA&FID=35428



Os nad ydych chi'n gallu cael y ffurflen am rhyw reswm cysylltwch gyda ni os gwelwch yn dda ar grantiau@celf.cymru.



2. Pan rydyn ni wedi cael eich cais fe fyddwn ni yn anfon e-bost i ddweud ein bod wedi ei gael.



3. Fe fyddwn ni'n darllen yr wybodaeth rydych chi wedi ei roi inni. Efallai bydd angen inni ofyn i chi am ragor o wybodaeth.



4. Fe fyddwn ni'n edrych i weld faint o arian rydych chi ei angen a pha daliadau rydych chi'n bwriadu eu gwneud. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr arian rydych chi'n gofyn amdano yn deg ar gyfer y gwaith rydych chi eisiau ei wneud.



5. Os ydyn ni'n penderfynu rhoi arian i chi fe fyddwn ni yn anfon **Ffurflen Derbyn Dyfarniad a Manylion Banc** i chi. Llanwch y ffurflen a'i hanfon yn ôl inni os gwelwch yn dda.



6. Pan rydyn ni wedi cael eich **Ffurflen Derbyn Dyfarniad a Manylion Banc** fe fyddwn ni'n anfon arian i chi.



Fe fyddwch chi'n cael 90% o'r arian. Dyma bron y cwbl. Fe fyddwn ni'n rhoi gweddil yr arian i chi pan fyddwch chi wedi gorffen y gwaith rydych chi wedi dweud eich bod yn mynd i'w wneud. Fe fydd angen i chi anfon adroddiad inni.



Fe fyddwn ni'n ateb pawb sydd wedi gwneud cais o fewn 4 wyrhnos i'r dyddiad cau. Fe fyddwn ni'n dweud wrthydych chi os ydy pethau yn cymryd mwy o amser am rhyw reswm.



Cyn dechrau eich cais mae angen i chi ddarllen "**Cronfa Sefydlogi - Cwestiynau Cyffredin**". Mae hwn yn rhoi'r holl wybodaeth rydych chi ei angen i wneud cais: <https://arts.wales/cy/resources/questions-and-answers-stabilisation-fund-for-organisations>

Pa wybodaeth rydyn ni ei angen gennych chi



Fe fyddwn ni'n gofyn pethau amdanoch chi a'ch gwaith.



Fe fyddwn ni'n gofyn pethau fel lle mae'ch gwaith yn digwydd. A pha fath o gelfyddyd rydych chi'n ei wneud.

Rydyn ni angen gwybod:

Am eich corff



1. Pwy ydych chi. Beth rydych chi'n ei wneud. A sut mae eich gwaith o fudd i bobl. Rydyn ni hefyd angen enwau 2 berson rydyn ni'n gallu cysylltu gyda nhw sydd yn gallu dweud wrthyn ni am y gwaith rydych chi'n ei wneud.



2. Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar eich corff a'r arian rydych chi wedi ei golli.



3. Prawf eich bod chi'n rhedeg eich corff yn iawn. Er engraifft bod gennych chi reolau a ffyrdd pendant o weithio.

Am eich arian



4. Faint o arian sydd wedi dod i mewn i'ch corff rhwng **Ebrill 2019** a **Mawrth 2020**. Trosiant ydy'r enw ar hwn.



5. Dywedwch wrthyn ni faint o arian sydd gennych chi wrth gefn. Dyma arian rydych chi'n ei gadw i dalu am bethau nad ydych chi'n gallu cynllunio ar eu cyfer.



6. Os ydych chi'n rhan o'n **Portffolio Celfyddydol Cymru**, dywedwch wrthyn ni sut rydych chi'n defnyddio'r arian rydych chi'n ei gael gennym ni i ddal i fynd ar yr amser yma.



7. Prawf bod gennych chi gyfrif banc yn eich enw chi.



8. Dywedwch wrthyn ni os ydych chi'n ceisio cael arian o rhywle arall. Ac os ydych chi'n meddwl eich bod yn mynd i gael yr arian.

Am eich prosiect



9. Yr arian fyddwch chi ei angen ac am beth fyddwch chi ei angen. Rhaid i chi ddefnyddio'r templed o'r cais i wneud hyn. Cofiwch bod angen gwario'r arian o fewn 6 mis.



10. Pa wahaniaeth fydd yr arian o'r **Gronfa Sefyddlogi** yn ei wneud i'ch corff?




11. Y gwahanol fathau o bobl fydd yn elwa oddi wrth eich gwaith. A sut fyddwch chi'n gweithio mewn ffordd deg i bawb.

Manylion banc



Rydyn ni'n gallu talu arian i gyfrif banc yn enw eich corff. Rhaid cael 2 berson o leiaf fel llofnodwyr. Mae hyn yn meddwl bod rhaid i 2 berson o leiaf gytuno i'r holl daliadau allan o'r cyfrif.



Rhaid i'r cyfrif fod yn y DU.



Fe fyddwn ni'n talu drwy **BACS**. Mae hyn yn meddwl y bydd arian yn mynd yn syth o'n cyfrif ni i'ch cyfrif chi. Mae hyn yn gallu cymryd hyd at 3 diwrnod.



Rhaid i chi lenwi'r Ffurflen Manylion Banc a'i anfon yn ôl inni. Hyd yn oed os ydych chi wedi cael arian gennym ni o'r blaen i'r un cyfrif.



Darllenwch “**Cronfa Sefydlogi - Cwestiynau Cyffredin**” os oes gennych chi unrhyw gwestiynau eraill am hyn.

Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth



Rydyn ni'n credu bod gan bobl yr hawl i weld sut rydyn ni'n gwario'r arian sydd gennym ni.



Os ydych chi eisiau dysgu rhagor am hyn ewch i'n gwefan os gwelwch yn dda: <https://arts.wales/about-us/accountability/freedom-information>.



Oherwydd ein bod ni yn gorff cyhoeddus rhaid inni adael i bobl weld i bwy rydyn ni'n rhoi arian yn ôl y gyfraith.



Mae hyn yn meddwl y bydd rhywfaint o'ch gwybodaeth efallai yn cael ei weld gan bobl eraill.



Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar y wefan **Rhyddid Gwybodaeth**: <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-freedom-of-information/>.



Rydyn ni'n dilyn cyfraith o'r enw **GDPR (Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data)**. Mae hyn yn meddwl nad ydy gwybodaeth bersonol yn cael ei rannu heb eich caniatâd chi. Os nad oes deddf wedi cael ei thorri.

Cwynion



Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ffordd rydyn ni'n delio gyda'ch cais rydych chi'n gallu cwyno. Ewch i'n gwefan os welwch yn dda: <https://arts.wales/cy/amdanom-ni/atebolrwydd/cwynion>.



Dim ond os ydych chi'n meddwl nad ydyn ni wedi delio gyda'ch cais yn iawn rydych chi'n gallu cwyno. Dydych chi ddim yn gallu cwyno i geisio newid ein penderfyniad am roi cyllid i chi neu beidio.